

Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Canllaw

Ionawr 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddMCD@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddMCD](https://twitter.com/SeneddMCD)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

1. Y cefndir	3
Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.....	3
Gweithdrefn ar gyfer craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2018.....	4
2. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.....	7
Y cefndir	7
Y broses sifftio gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer rheoliadau negyddol arfaethedig.....	7
Ar ôl gwaith sifftio gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol	9
Adroddiadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.....	10
3. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig (gyda chydysniad Gweinidogion Cymru)	11
Y cefndir	11
Y broses sifftio yn Senedd y DU ar gyfer rheoliadau negyddol arfaethedig	11
Ar ôl gwaith sifftio yn Senedd y DU.....	12
Gwaith craffu ac adroddiadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.....	12
4. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig (heb gydsyniad Gweinidogion Cymru)	13
Y cefndir	13
Gwaith craffu ac adroddiadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.....	13

1. Y cefndir

Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf 2018) yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth bresennol,¹ a hynny er mwyn cywiro diffygion yng nghyfraith y DU a allai godi yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.
2. Mae adran 8 o Ddeddf 2018 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud rheoliadau fel sy'n briodol yn eu barn hwy i atal, unioni neu liniaru unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir² i weithredu'n effeithiol neu unrhyw ddiffyg arall mewn cyfraith o'r fath.
3. Mae adran 9 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud rheoliadau fel sy'n briodol yn eu barn hwy i weithredu unrhyw gytundeb ymadael sy'n codi o ganlyniad i Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd.
4. Mae adran 11 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 2 iddi yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyfateb i'r pwerau a roddir i Weinidogion y DU drwy adrannau 8 a 9 o Ddeddf 2018 (ond mae pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i gyfyngiadau nad ydynt yn gymwys i Weinidogion y DU). Mae Atodlen 2 hefyd yn caniatáu i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru weithredu ar y cyd wrth wneud rheoliadau.
5. Fodd bynnag, nid yw'r pwerau yn adran 8 a 9 ar gyfer Gweinidogion y DU yn gyfyngedig i'w harfer yn Lloegr. I bob pwrpas, mae'r pwerau'n caniatáu i Weinidogion y DU weithredu yng Nghymru mewn meysydd datganoledig, h.y. mae Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn meddu ar rai pwerau cydamserol.
6. Mewn cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU yn ymrwymo i beidio â gweithredu mewn meysydd datganoledig heb gytundeb Llywodraeth Cymru.³ Mae'n nodi:

¹ Cyfeirir at is-ddeddfwriaeth hefyd fel deddfwriaeth ddirprwyedig

² Unrhyw gyfraith sydd, ar y diwrnod ymadael neu ar ôl hynny, yn parhau i fod yn gyfraith y DU neu'n rhan ohoni

³ Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin

“The UK Government will be able to use powers under clauses 7, 8 and 9 to amend domestic legislation in devolved areas but, as part of this agreement, reiterates the commitment it has previously given that it will not normally do so without the agreement of the devolved administrations. In any event, the powers will not be used to enact new policy in devolved areas; the primary purpose of using such powers will be administrative efficiency.”

7. Mae adran 14 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 4 iddi yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â ffioedd a thaliadau.

8. Mae adran 22 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 7 iddi yn cynnwys darpariaethau ynghylch gwaith craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol ar reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018, gan gynnwys gwaith sifftio gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol o'r rheoliadau y bwriedir eu gwneud drwy'r weithdrefn negyddol. Cyflwynwyd y broses sifftio yn ystod gwaith craffu ar y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2018 oherwydd pryderon ynghylch graddfa a chwmpas y pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir a'r angen am fwy o waith craffu ar yr is-ddeddfwriaeth o ganlyniad.⁴ Caiff y broses sifftio, a allai arwain at newid cynigion ar gyfer rheoliadau gweithdrefn negyddol i reoliadau gweithdrefn gadarnhaol, ei disgrifio ym mhennod 2.

9. Mae adran 23 o Ddeddf 2018 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn perthynas â darpariaethau canlyniadol a throsiannol fel sy'n briodol yn eu barn hwy o ganlyniad i Ddeddf 2018.

10. Mewn perthynas â gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, y canlyniad yw bod Deddf 2018 yn cynnwys cymysgedd cymhleth o bwerau cydamserol a phwerau ar y cyd sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.

11. Caiff y pwerau gwneud rheoliadau yn Deddf 2018 eu rhestru yn Nhabl 1. Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau negyddol neu gadarnhaol, neu'r weithdrefn frys, yn unol ag adran 22 Deddf 2018 ac Atodlen 7 iddi.

Gweithdrefn ar gyfer craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2018

12. Yn ei adroddiad, Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol, gwnaeth y Pwyllgor

⁴ Roedd y pryderon yn dod o du Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin ac mae ei waith ar y pwnc ar gael ar ei wefan.

Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol argymhellion ynglŷn â sut y dylid newid Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod gwaith craffu effeithiol yn digwydd ar reoliadau sy'n deillio o Ddeddf 2018.

13. Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, ac ymateb y Pwyllgor Busnes, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar newidiadau⁵ i'w Reolau Sefydlog (ar sail argymhellion y Pwyllgor Busnes).

14. O dan Ddeddf 2018, mae modd gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig mewn tair prif ffordd:⁶

- gan Weinidogion Cymru (o dan adran 11 o Ddeddf 2018, ac Atodlen 2 iddi);
- gan Weinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig gyda chydysniad⁷ Gweinidogion Cymru (o dan adrannau 8 a 9 o Ddeddf 2018);
- gan Weinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad⁸ Gweinidogion Cymru (o dan adrannau 23 o Ddeddf 2018);

15. Mae modd adnabod yr holl reoliadau i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE, p'un a ydynt wedi'u gwneud gan Weinidogion y DU neu Weinidogion Cymru, oherwydd bod yr ymadrodd "(Ymadael â'r UE)" yn eu teitl.

⁵ Cofnod y Trafodion, [178-191], 3 Hydref 2018

⁶ Er bod modd i Weinidog y DU a Gweinidogion Cymru weithredu ar y cyd, neu i ddefnyddio pwerau cydamserol mewn offeryn cyfansawdd, y disgwyl yw mai prin y bydd amgylchiadau o'r fath yn codi.

⁷ Cydsyniad o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin, yn hytrach na chydysniad statudol

⁸ Cydsyniad o dan y Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin, yn hytrach na chydysniad statudol

Tabl 1: Crynodeb o'r prif bwerau i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Pŵer	Gellir ei arfer drwy	Adran neu Atodlen	Gosodwyd gerbron	A yw'r broses sifftio yn gymwys o dan Ddeddf 2018
Cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig	Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain	Adran 8	Senedd y DU	Ydy
	Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain	Rhan 1 o Atodlen 2	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Ydy
	Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd	Rhan 1 o Atodlen 2	Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru	Nac ydy
	Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau cydamserol mewn offeryn cyfansawdd	Adran 8 (Gweinidogion y DU) Rhan 1 o Atodlen 2 (Gweinidogion Cymru)	Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru	Ydy
Gweithredu'r cytundeb ymadael mewn meysydd datganoledig	Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain	Adran 9	Senedd y DU	Ydy
	Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain	Rhan 2 o Atodlen 2	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Ydy
	Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd	Rhan 2 o Atodlen 2	Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru	Nac ydy
	Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau cydamserol mewn offeryn cyfansawdd	Adran 9 (Gweinidogion y DU) Rhan 2 o Atodlen 2 (Gweinidogion Cymru)	Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru	Ydy
Darpariaethau canlyniadol a throsiannol mewn meysydd datganoledig	Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain	Adran 23	Senedd y DU	Ydy
Gosod ac addasu ffioedd a thaliadau mewn meysydd datganoledig	Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain	Atodlen 4	Senedd y DU	Nac ydy
	Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain	Atodlen 4	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Nac ydy
	Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd	Atodlen 4	Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru	Nac ydy
	Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau cydamserol mewn offeryn cyfansawdd	Atodlen 4	Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru	Nac ydy
Rheoliadau i rewi rhai meysydd yng nghyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig	Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain (ond yn amodol ar delerau y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Rhynglywodraethol)	Adran 12 (h.y. o dan adran 109A newydd o <i>Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006</i>) Atodlen 3, Rhan 1 (h.y. o dan adran 80(8) newydd o <i>Ddeddf 2006</i>)	Senedd y DU (a phob amser yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol)	Nac ydy (ond cyn y gall Gweinidogion y DU ei osod gerbron Senedd y DU, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud "penderfyniad cydsynio" o fewn 40 diwrnod)

2. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru

Y cefndir

16. O dan Ddeddf 2018, gall rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol. Ym mhob achos, Deddf 2018 ei hun sy'n pennu'r weithdrefn benodol.

17. Fel y disgrifir ym mharagraff 8 o'r canllaw hwn, mae'r rheoliadau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol yn ddarostyngedig i waith sifftio.⁹ Cyfeirir at y rheoliadau fel rhai negyddol arfaethedig.

18. Er mwyn rheoli nifer y rheoliadau a all ddod ymlaen, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i protocol, sy'n darparu'n benodol ar gyfer hysbysiad bythefnos cyn y rheoliadau sy'n debygol o ddod ymlaen.

Y broses sifftio gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer rheoliadau negyddol arfaethedig

19. Caiff y broses sifftio ei nodi ym mharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 ac fe'i hystyrir yn Rheolau Sefydlog newydd 21.3B, 21.3C, 27.1A, 27.9A a 27.9B. Gyda'i gilydd, mae'r canlynol yn ofynnol drwy'r broses sifftio:

- rhaid gosod yr holl reoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud o dan y pwerau yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2 (ac eithrio'r rhai sydd i'w gwneud ar y cyd â Gweinidogion y DU), ac y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol, ar ffurf ddrafft gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- rhaid bod memorandwm esboniadol yn cyd-fynd â'r rheoliadau arfaethedig, yn nodi pam y dylai'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol;
- o fewn cyfnod o 14 diwrnod calendr ar ôl gosod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau negyddol arfaethedig (h.y. eu gwneud yn gyfraith), oni bai bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a

⁹ Ac eithrio rheoliadau a wneir o dan Atodlen 4 i Ddeddf 2018.

Deddfwriaethol wedi gwneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol ar gyfer y rheoliadau;

- o fewn y 14 diwrnod calendr hynny, caniateir i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ystyried y rheoliadau negyddol arfaethedig ac argymell y dylai'r rheoliadau ddilyn gweithdrefn amgen (fel y weithdrefn gadarnhaol);
- mae'r meini prawf y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn eu hystyried wrth wneud ei argymhelliad wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 21.3C (gweler Blwch 1);
- mae gwybodaeth am ganlyniad y gwaith craffu ar reoliadau negyddol arfaethedig ar gael ar [dudalen we](#) y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Blwch 1: Rheol Sefydlog 21.3C – meini prawf sifftio

Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B adrodd ar y weithdrefn briodol gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

(i) a oes digon o eglurder a thryloywder yn y memorandwm ynghylch pam mae'r llywodraeth o'r farn y dylai'r weithdrefn penderfyniad negyddol fod yn gymwys;

(ii) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw o ran y newidiadau y mae'r rheoliadau yn eu gwneud;

(iii) a fu ymgynghori digonol ynghylch y rheoliadau;

(iv) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch yr effaith y gall y rheoliadau ei chael ar gydraddoldeb a hawliau dynol;

(v) a yw'r rheoliadau'n codi materion o bwys cyhoeddus, gwleidyddol neu gyfreithiol; ac

(vi) unrhyw faterion eraill sy'n briodol ym marn y pwyllgor.

Sylwer: mae'r memorandwm yn cyfeirio at femorandwm esboniadol y mae'n rhaid iddo gyd-fynd ag unrhyw reoliadau sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol (yn unol â Rheol Sefydlog 27.1)

Ar ôl gwaith sifftio gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

20. Ar ôl i'r 14 diwrnod calendr fynd heibio (neu'n gynt os bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol eisoes wedi gwneud argymhelliad), caiff Gweinidogion Cymru fynd ymlaen â'r rheoliadau negyddol arfaethedig drwy:

- y weithdrefn gadarnhaol, lle mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn argymhell y dylai'r rheoliadau ddilyn y weithdrefn gadarnhaol ac mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn (h.y. mae'n ofynnol cynnal dadl a phleidlais ar y rheoliadau yn y Cynulliad Cenedlaethol cyn bod modd eu gwneud a'u dwyn i rym); neu
- y weithdrefn negyddol, lle nad yw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi gwneud argymhelliad i'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu os yw wedi gwneud hynny, lle nad yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad (h.y. mae'r rheoliadau wedi'u gwneud ac mae modd eu dwyn i rym, ond mae modd eu dirymu os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu eu dirymu o fewn 40 diwrnod o'u gosod).

21. Mae Rheol Sefydlog 27.9B yn ei gwneud yn ofynnol i'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau esbonio, os yw'n berthnasol, pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i fabwysiadu'r weithdrefn gadarnhaol.

22. Yna mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r broses safonol ar gyfer craffu ar reoliadau a bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu arnynt yn unol â'r meini prawf a nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3. Er enghraifft:

- o dan Reol Sefydlog 21.2, mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys y rhai a allai beri amheuaeth ynghylch cyfreithlondeb y rheoliadau neu a ydynt yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar y materion hyn. Yr enw ar faterion y cyflwynir adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 yw pwyntiau adrodd technegol.
- o dan Reol Sefydlog 21.3, mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys y rheini sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad, fel rheoliadau nad ydynt yn gweithredu polisi yn y ffordd a honnwyd neu yr ystyrir eu bod yn wleidyddol gynhennus neu'n arwyddocaol. Caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar y materion hyn. Yr enw ar faterion y cyflwynir

adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 yw pwyntiau adrodd o ran rhinweddau.

23. Bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried cynngor gan gyfreithwyr y Cynulliad Cenedlaethol ar unrhyw set o reoliadau lle mae materion i adrodd arnynt.

24. Fel arall, fe nodir bod eu hadroddiadau'n glir. Mewn unrhyw gyfarfod, bydd rheoliadau ag adroddiadau clir yn cael eu cynnwys mewn dogfen ar wahân.

Adroddiadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

25. Yna caiff yr holl adroddiadau eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, gan alluogi Aelodau'r Cynulliad:

- yn achos rheoliadau cadarnhaol, i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r rheoliadau pan fydd pleidlais arnynt yn y Cyfarfod Llawn;
- yn achos rheoliadau negyddol, i benderfynu a ddylid cyflwyno cynnig i'w dirymu, sy'n achosi dadl yn y Cyfarfod Llawn i Aelodau'r Cynulliad bleidleisio ar y cynnig hwnnw.

26. Mae gwybodaeth am ganlyniad y gwaith craffu ar y rheoliadau hyn sy'n ddarostyngedig i'r gweithdrefnau negyddol neu gadarnhaol ar gael ar dudalen.welsh.parliament.wales is-ddeddfwriaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

3. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig (gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru)

Y cefndir

27. Gall Gweinidogion y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan adrannau 8 a 9 o Ddeddf 2018. Fodd bynnag, dim ond gyda chydsyniad Llywodraeth Cymru y cânt wneud hynny (gweler paragraff 6 o'r canllaw). Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU yn unig.

28. Mae Rheol Sefydlog 30C newydd yn ei gwneud yn ofynnol, yn achos rheoliadau o'r fath a wneir neu i'w gwneud gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf 2018, fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru osod datganiad (datganiad ysgrifenedig 30C) yn hysbysu'r Cynulliad am y rheoliadau dan sylw, fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith o'u gosod yn Senedd y DU.

29. Pan fo'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A. Gall unrhyw aelod wedyn gyflwyno cynnig yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cydsyniad i'r rheoliadau yn ffurfiol.¹⁰

Y broses sifftio yn Senedd y DU ar gyfer rheoliadau negyddol arfaethedig

30. Yn achos rheoliadau y bwriedir i Weinidogion y DU eu gwneud mewn meysydd datganoledig o dan y weithdrefn negyddol a chyda chydsyniad Llywodraeth Cymru, byddant hefyd yn ddarostyngedig i'r broses sifftio. Yn Senedd y DU, dau bwyllgor sy'n ymgymryd â gwaith sifftio:

- Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin;
- Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi.

¹⁰ Cyflwynwyd Rheol Sefydlog 30A ym mis Hydref 2013 ac felly nid yw wedi'i chynnwys yn benodol i ymdrin ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

31. Mae'r broses ar gyfer sifftio yr un fath yn fras, ond bod gan y pwyllgorau hyn fwy o amser i sifftio¹¹ a bod eu meini prawf sifftio yn cael eu mynegi'n wahanol.

32. Ar ôl i'r rheoliadau gael eu sifftio, mae rhwymedigaeth ar Lywodraeth y DU i wneud datganiad Gweinidogol ysgrifenedig i'r ddau Dŷ bob tro y bydd yn anghytuno ag argymhelliad gan un o'r pwyllgorau sifftio, neu'r ddau ohonynt.¹²

Ar ôl gwaith sifftio yn Senedd y DU

33. Ar ôl sifftio'r holl reoliadau, mae'r holl offerynnau statudol (boed yn benderfyniad negyddol neu'n benderfyniad cadarnhaol) yn destun gwaith craffu ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol a'r Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth i ymgymryd â'r gwaith craffu technegol a rhinweddau arferol (gan adlewyrchu'r broses y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ymgymryd â hi ar gyfer holl offerynnau statudol Cymru).

Gwaith craffu ac adroddiadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

34. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cael cyngor gan gyfreithwyr y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y rheoliadau hyn a datganiad ysgrifenedig 30C perthnasol Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag unrhyw Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol perthnasol. Bydd y cyngor yn cynnwys a yw'r dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu yn bodloni'r prawf yn y cytundeb rhynglywodraethol (y cyfeirir ato ym mharagraff 6 o'r canllaw), sef:

“... the powers will not be used to enact new policy in devolved areas; the primary purpose of using such powers will be administrative efficiency.”

35. Os oes unrhyw faterion yn codi, mae'n debygol y bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Weinidogion Cymru yn eu cylch, a gallant eu tynnu at sylw'r pwyllgorau seneddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 33. Mae'r amserlenni dan sylw yn golygu nad yw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn debygol o fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y broses sifftio yn Senedd y DU.

¹¹ Mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol* yn esbonio'r rhesymau dros y gwahaniaeth (tudalennau 25-27)

¹² I weld trafodaeth ynghylch pam nad yw'r gofyniad hwn yn gymwys i'r Cynulliad Cenedlaethol, gweler Cofnod y Trafodion, [178-191], 3 Hydref 2018

4. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig (heb gydsyniad Gweinidogion Cymru)

Y cefndir

36. Gall Gweinidogion y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan adran 23 o Ddeddf 2018, heb gysyniad Llywodraeth Cymru. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU yn unig.

37. Mae gofynion Rheol Sefydlog 30C a Rheol Sefydlog 30A hefyd yn gymwys i reoliadau o'r fath ac yn ei gwneud yn ofynnol, yn achos rheoliadau o'r fath a wneir neu i'w gwneud gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf 2018, fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru osod datganiad yn hysbysu'r Cynulliad am y rheoliadau dan sylw, fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith o'u gosod yn Senedd y DU.

38. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn destun gwaith sifftio a chraffu gan y pwyllgorau seneddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 30, eto yn dilyn yr un gweithdrefnau ag y nodir ym mharagraffau 31 i 33.

Gwaith craffu ac adroddiadau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

39. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cael cyngor gan gyfreithwyr y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y rheoliadau hyn, a datganiad ysgrifenedig 30C perthnasol Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag unrhyw Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol perthnasol. Bydd y cyngor yn cynnwys a yw'r dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu yn bodloni'r prawf yn y cytundeb rhynglywodraethol (y cyfeirir ato ym mharagraff 6 o'r canllaw), sef:

“... the powers will not be used to enact new policy in devolved areas; the primary purpose of using such powers will be administrative efficiency.”

40. Os oes unrhyw faterion yn codi, mae'n debygol y bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Weinidogion Cymru yn eu cylch, a gallant eu tynnu at sylw'r pwyllgorau seneddol y cyfeirir atynt ym mharagraff 33. Mae'r amserlenni dan sylw

yn golygu nad yw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn debygol o fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y broses sifftio yn Senedd y DU.